# Diweddariad cynnydd blynyddol yn erbyn ymrwymiadau'r polisi

Mae Cydbwyllgor Llywodraethu ('CLl') Partneriaeth Pensiwn Cymru ('PPC'/'Y Bartneriaeth') wedi cymeradwyo'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol ('BC') a Pholisi Risg Hinsawdd yn ffurfiol. Mae'r polisïau hyn yn cynrychioli'r amrediad eang o gredoau buddsoddi yn y Gyd-gronfa, maent yn uchelgeisiol eu natur ac yn adlewyrchu dyhead y Bartneriaeth i fod yn arweinydd mewn Buddsoddi Cyfrifol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol (AC) wedi gweithio i weithredu a chyflawni'r ymrwymiadau polisi amrywiol.

Mae'r Bartneriaeth wedi cynnal ei hadolygiad blynyddol o gynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau yn y Polisïau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2024. Mae'r adolygiad hwn yn ffurfio elfen o brosesau llywodraethu'r Bartneriaeth a bydd yn cael ei adlewyrchu'n ffurfiol yn adroddiad Cod Stiwardiaeth PPC ar gyfer 2023/24. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan Hymans Robertson ar ran y Bartneriaeth, ac mae wedi'i drafod gan Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol a Gweithgor Swyddogion PPC, cyn cael ei adrodd yn ffurfiol a'i drafod gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Mae Atodiad 1 yn rhoi asesiad manwl o gynnydd y Bartneriaeth o ran cyflawni ymrwymiadau ei bolisi Buddsoddi Cyfrifol. Mae Atodiad 2 yn ymdrin ag asesiad tebyg ar gyfer ymrwymiadau dan y polisi Risg Hinsawdd. Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae cynnydd wedi parhau i gael ei wneud yn erbyn yr ymrwymiadau polisi.

### Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Cyhoeddodd y Bartneriaeth ei Hadroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan (AWCR) cyntaf, i asesu'r amlygiad hinsawdd ar draws holl gronfeydd Cymru. Daeth nifer o argymhellion allan o'r adroddiad sydd bellach yn cael eu bwrw ymlaen, gan gynnwys esblygiad cynnig buddsoddiadau'r Bartneriaeth (yn enwedig yn y dyraniadau goddefol a chydag incwm sefydlog) a gweithrediad fframwaith hinsawdd. Bydd yr ymarferiad hwn yn cael ei gynnal bob tair blynedd gydag adroddiad lefel cyd-gronfa yn cael ei gynhyrchu yn y blynyddoedd interim, gyda'r adroddiad interim cyntaf yn cael ei gynhyrchu i ymdrin â 2023/24.

- Cyflwynodd y Bartneriaeth ei thrydydd Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol, gan barhau i fod yn llofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU 2020.
- Lansiwyd nifer o is-gronfeydd newydd yn ystod 2023/24, yn cynnwys yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy a nifer o raglenni buddsoddi marchnad preifat (credyd preifat; isadeiledd penagored; isadeiledd caeedig; ecwiti preifat). Mae'r datrysiadau hyn i gyd wedi ymgorffori Buddsoddi Cyfrifol yn eu dyraniad a'u penodiad.
- Mae'r Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol wedi bod wrthi'n monitro nodweddion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) a hinsawdd ei Is-gronfeydd. I'r perwyl hwn, gwelwyd mwy o graffu ar gyflwynwyr unigol, gyda rhestr ffocws hinsawdd sydd bellach hefyd yn cael ei datblygu. Mae Polisi Esgoli hefyd wedi cael ei ddatblygu, a ddylai roi gwell tryloywder i ran-ddeiliaid, a rhwng darparwr gwasanaeth.
- Roedd stiwardiaeth yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer PPC dros y flwyddyn. Chwaraeodd y Bartneriaeth rôl weithredol ym mhanel cleientiaid Robeco ym mis Tachwedd, gyda nifer o themâu (Bioamrywiaeth Cefnforoedd; Cemegion Peryglus; ymgysylltiad sofran) yn cael ei lansio gan ddilyn mewnbwn uniongyrchol y Bartneriaeth.

## Meysydd ffocws i'r dyfodol

Wrth gwblhau'r asesiad hwn, nodwn y meysydd posib a ganlyn ar gyfer gweithgarwch/gwelliannau dros 2023/24:

1 **Hwyluso trafodaethau o gwmpas nod hinsawdd gyffredin**

Mae’r Bartneriaeth yn gobeithio i barhau trafodaethau o amgylch nod hinsawdd gyffredin dros 2024/25, a'r fframwaith hinsawdd sydd wrthi'n cael ei ddatblygu yw'r cam cyntaf sy'n hwyluso hyn.

2 **Esblygiad yr Is-gronfeydd incwm sefydlog**

Yn dilyn canfyddiadau'r AWCR, un maes ffocws i'r dyfodol ar gyfer y Bartneriaeth fydd esblygiad cynaliadwy ei gynigion incwm sefydlog. Mae gwaith eisoes wedi mynd rhagddo Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau PPC yma.

3 **Esblygiad y mandadau goddefol**

Mae gwaith eisoes wedi mynd rhagddo ar ddeall sut allai’r Bartneriaeth esblygu ei dyraniadau goddefol. Mae mewnbwn cychwynnol wedi'i gaffael gan Awdurdodau Cyfansoddol o ran p'un a yw'r cynnig cyfredol yn cwrdd â disgwyliadau Buddsoddi Cyfrifol PPC a sut ellir esblygu mandadau goddefol lle nad yw'r disgwyliadau yn cael eu cwrdd. Byddai cymhwyso Polisi Pleidleisio PPC ar draws y cronfeydd hyn mewn sgôp yn gam rhesymol.

4 **Adeiladu fframwaith ar gyfer y rhaglenni buddsoddi marchnad preifat**

O ystyried y rhaglenni buddsoddi marchnad preifat newydd a lansiwyd, gyda rhaglenni pellach yn cael eu datblygu, dylai’r Bartneriaeth fwrw ymlaen i ddatblygu fframwaith adrodd cyffredin fel bod modd datgelu gwybodaeth yn gyson.

Partneriaeth Pensiwn Cymru
Mai 2024

# Atodiad 1: Cynnydd yn erbyn ymrwymiadau Polisi Buddsoddi Cyfrifol (BC)

| Cyfeirnod | Ymrwymiad / Datganiad Polisi | Diweddariad / Sylw | Statws RAG |
|---|---|---|---|
| **Strategaeth Fuddsoddi** | | | |
| 3.3 | Bydd y Bartneriaeth yn ymgynghori gydag Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf unwaith y flwyddyn i bennu eu gofynion buddsoddi unigol a dyheadau tymor hwy. Bydd y Bartneriaeth yn defnyddio’r wybodaeth hon i flaenoriaethu datblygiad a lansiad datrysiadau/cronfeydd buddsoddi yn y dyfodol o fewn PPC. | Dros 2023, roedd nifer o lansiadau a buddsoddiadau newydd:<br>• Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy<br>• Isadeiledd<br>• Dyledion Preifat<br>• Ecwiti Preifat<br>Mae trafodaethau wedi cychwyn ar sawl maes fydd yn cael eu bwrw ymlaen dros 2024/25:<br>• Incwm sefydlog cynaliadwy<br>• Esblygiad y mandadau goddefol<br>• Eiddo tirol<br>• Buddsoddiad effaith (ffyniant bro)<br>• | ● (green) |
| 3.4 | Bydd y Bartneriaeth hefyd yn ystyried cyfleoedd a gyfyd o well dealltwriaeth o ffactorau ESG. | Dros 2023, buddsoddodd y Bartneriaeth yn natblygiad parciau ynni gwynt ar y tir yng Nghymru. Disgwylir i'r prosiect ddarparu budd i'r cymunedau sy'n byw yn agos i'r prosiect, ynghyd â chynhyrchu ynni glân.<br>Mae nifer o lansiadau cronfa wedi'u cynnal sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'r ffactorau ESG, gyda nifer o feysydd blaenoriaeth i ganolbwyntio arnynt dros 2024/25 yn cael eu hadnabod fel y nodir yn 3.3 uchod. | ● (green) |
| **Newid hinsawdd** | | | |
| 4.3 | Bydd y Bartneriaeth yn ymgysylltu â'i darparwyr i sicrhau bod modd datblygu mecanwaith cyffredin i fonitro risgiau'n gysylltiedig â hinsawdd ar gyfer holl asedau PPC. | Mae’r Bartneriaeth yn monitro'r risg newid hinsawdd drwy gymryd golwg fanwl bob chwarter ar y risg hinsawdd ac ESG yn Is-gronfeydd gweithredol PPC. Mae pob cronfa yn cael ei hystyried o leiaf bob blwyddyn. Hefyd mae Russell yn adrodd ar risgiau hinsawdd yn yr Is-gronfeydd sydd dan eu rheolaeth, bob chwarter.<br>Eleni, dechreuodd PPC adrodd ar fetricsau hinsawdd yn yr holl Is-gronfeydd (llai Bondiau Llywodraeth Byd-eang, o ystyried y cyfyngiadau data), ar sail chwarterol. Hefyd, yr AWCR oedd y tro cyntaf y cynhyrchwyd adroddiad Cymru gyfan, o ran amlygiad hinsawdd. Bydd hwn nawr yn cael ei gynhyrchu bob tair blynedd (ar | ● (green) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | lefel Cymru gyfan), gydag adroddiadau interim yn cael eu cynhyrchu ar lefel PPC yn unig o ddiwedd mis Mawrth 2025.<br>**Dylai'r Bartneriaeth ystyried monitro ac adrodd risg hinsawdd yn y rhaglenni buddsoddi marchnad preifat.** | |
| 4.4 | Drwy ei ddirprwyon, bydd y Bartneriaeth yn annog pob cwmni sy'n buddsoddi i ddatgelu yn unol â gofynion y TCFD. | Bydd y gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei wneud drwy Robeco a Russell. Mae'r Bartneriaeth wedi tynnu sylw Robeco at y gofyn hwn drwy ei themâu stiwardiaeth.<br>Mae Robeco yn ymgorffori'r disgwyliadau o amgylch datgeliadau TCFD o fewn nifer o'u themâu ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys y thema Allyriadau Carbon Sero Net. Y thema hon yw *'evergreen'*, gyda chwmnïau newydd yn cael eu hymgysylltu ar sail dreigl. Hefyd, mae Robeco wedi ychwanegu'r thema *'Just Transition'*, gyda ffocws penodol ar farchnadoedd datblygol, yn rhan o'r amcan o fod yn gosod targedau sero net a datgeliadau.<br>Mae'r disgwyliadau adrodd hefyd wedi'u hymgorffori yn y polisi pleidleisio. Cafodd y polisi pleidleisio hefyd ei gryfhau, i sicrhau bod gan y cwmnïau hynny sydd fwyaf agored i risgiau hinsawdd gynlluniau trosglwyddo mwy cadarn yn eu lle, ac y dylid bod datgeliadau ar strategaeth datgarboneiddio sy'n alinio â nodau Cytundeb Paris. | |
| **Hawliau Dynol** | | | |
| 5.3 | Bydd y Bartneriaeth yn ceisio adnabod ac ymgysylltu â sefydliadau ar faterion hawliau dynol drwy eu haelodaeth LAPFF a thrwy'r gweithgarwch ymgysylltu a wneir gan Ddarparwr PacY y Bartneriaeth. | Bydd y gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei wneud drwy Robeco, LAPFF a Rheolwyr Buddsoddi'r Bartneriaeth. Mae ymgysylltiadau o'r fath dros 2023 wedi canolbwyntio ar arferion llafur, Tiriogaethau Meddianedig Palesteina a thema benodol wedi'i lansio ar Gaethwasiaeth Fodern mewn Cadwyni Cyflenwi.<br>Mae Robeco yn cymryd rhan mewn ymgysylltiadau ar y cyd ar hawliau dynol, gan gynnwys Cynghrair Buddsoddwyr ar Hawliau Dynol a'r Fenter Stiwardiaeth Hawliau Dynol UN PRI. | |
| 5.4 | Bydd y Bartneriaeth yn adrodd yn flynyddol ar sut y mae'r gweithgarwch ymgysylltu a wnaed gan ei ddirprwyon yn mynd i'r afael â materion hawliau | Adroddir ar ymgysylltu ar hawliau dynol bob chwarter, drwy adroddiadau Robeco. Yn flynyddol, mae ymgysylltiad hawliau dynol yn cael ei adrodd drwy'r Adroddiad Cod | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dynol. | Stiwardiaeth.<br>Ar gyfer 2022/23, a ffeiliwyd ym mis Hydref, er enghraifft, tynnodd y Bartneriaeth sylw at y cyd-lythyr a ffeiliwyd gan Robeco ac eraill yn gofyn am ddeddfwriaeth UE ar hawliau dynol mandadol a diwydrwydd dyladwy amgylcheddol.<br>Adroddir ar ymgysylltu perthnasol ar hawliau dynol bob chwarter, drwy adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol chwarterol. | |
| **Gweithredu'r strategaeth** | | | |
| 7.1,<br>7.3 | Mae’r  Bartneriaeth yn disgwyl i bob rheolwr buddsoddi a gyflogir o fewn PPC roi ystyriaeth briodol i risgiau sy'n ymwneud â hinsawdd a risgiau ESG eraill wrth wneud penderfyniadau o fewn eu portffolios priodol.<br>Bydd y Bartneriaeth yn ymgysylltu â'i Reolwyr Buddsoddi yn barhaus i sicrhau bod ffactorau ESG yn cael eu hadlewyrchu'n dryloyw mewn prosesau gwneud penderfyniadau a bod modd tystiolaethu'n briodol y dull a ddefnyddiwyd i reoli ffactorau ESG. | Mae Waystone/Russell, fel rhan o'u proses dethol rheolwyr, eisoes yn gwerthuso sut mae rheolwyr yn integreiddio risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a risgiau ESG eraill yn eu penderfyniadau.<br>Mae'r RIWG yn gyfrifol am fonitro Russell a, lle bo'n briodol, y Rheolwyr Buddsoddi tanategol ar y graddau y mae ganddynt risg hinsawdd integredig ac ystyriaeth ESG ar y portffolios.<br>Mae'r RIWG yn derbyn adroddiadau ar risg hinsawdd ac ESG gan eu hymgynghorwyr, sy'n monitro gweithgarwch Rheolwyr Buddsoddi PPC. | |
| 7.2 | Ym mhob amgylchiad perthnasol, mae’r Bartneriaeth yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi fod yn llofnodwyr i'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol ("PRI") a Chod Stiwardiaeth y DU gan y Cyngor Adrodd Ariannol ("FRC"). | Mae'r Bartneriaeth yn derbyn diweddariad blynyddol gan Russell ar gydymffurfiaeth ei rheolwyr gyda safonau'r farchnad ar y cyd ag asesiad Russell ei hun o'r rheolwyr hyn. Mae manylion o'r asesiad hwn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Cod Stiwardiaeth. | |
| **Stiwardiaeth, pleidleisio ac ymgysylltu â rhan-ddeiliaid** | | | |
| 8.4 | Bydd y Bartneriaeth yn ymgysylltu â'i Rheolwr Buddsoddi goddefol a'r Darparwr PacY i ystyried sut y gellir ymestyn Polisi Pleidleisio PPC i asedau a reolir gan ei Rheolwr Buddsoddi goddefol. | Mae’r Bartneriaeth wedi cynnal nifer o drafodaethau gyda'i Rheolwr Buddsoddi goddefol ar bleidleisio, yn enwedig mewn perthynas â newid hinsawdd. Nid yw Polisi Pleidleisio PPC eisoes wedi'i ymestyn i ymdrin â mandadau goddefol.<br>Mae esblygiad mandadau goddefol wedi bod yn cael eu trafod â rhan-ddeiliaid ac mae disgwyl iddo gael ei fwrw ymlaen dros 2024/25. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.5 | Bydd y Bartneriaeth yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch pleidleisio, gan gynnwys manylion unrhyw bleidleisiau na chafodd eu bwrw ac esboniadau lle na chafodd pleidleisiau eu bwrw yn unol â'r egwyddorion cytunedig ar sail chwarterol.<br>Bydd y Bartneriaeth yn trafod unrhyw faterion sy'n achosi pryder gyda'i Darparwr PacY, Rheolwyr Buddsoddi neu ddirprwyon eraill, yn ôl y gofyn. | Derbynnir adroddiadau pleidleisio chwarterol gan Robeco. Cynhelir adolygiad o'r adroddiadau pleidleisio a thrafodir materion o ddiddordeb gan y RIWG.<br>Mae'r Bartneriaeth yn cynnal deialog reolaidd â Robeco ar faterion pleidleisio ac mae Robeco yn cyflwyno yn rheolaidd i Bwyllgorau PPC.<br>Hefyd, mae'r Bartneriaeth yn ymgysylltu'n weithredol â Robeco cyn unrhyw bleidlais arwyddocaol ac yn ystyried sut mae'r rhain yn cael eu gwneud yn unol ag argymhellion LAPFF.<br>Yn ystod y flwyddyn, mae Robeco wedi cynyddu lefel y datgeliad ar bleidleisiau arwyddocaol, yn cynnwys y rhesymeg pleidleisio. | 🟢 |
| 8.6 | Bydd y Bartneriaeth yn adolygu'r polisi pleidleisio ar y cyd â'i Darparwr PacY, ymgynghorwyr a Rheolwyr Buddsoddi yn flynyddol. | Mae hyn yn dilyn Polisi Pleidleisio drwy Ddirprwy Robeco PPC, sy'n cael ei weithredu ar draws holl Is-gronfeydd Ecwiti Gweithredol PPC. Adolygodd y Bartneriaeth bolisi pleidleisio Robeco House yn ystod y flwyddyn a phennodd bod hyn yn parhau i fod wedi'i alinio ag amcanion PPC.<br>**Dros 2024/25, dylai'r Bartneriaeth barhau i ddatblygu ei dull esgoli (un teclyn yw pleidleisio drwy ddirprwy) a chydweithio agosach / rhannu gwybodaeth â Rheolwyr Buddsoddi**. | 🟡 |
| 8.12 | Bydd y Bartneriaeth yn derbyn adroddiadau yn flynyddol ar unrhyw ymgysylltu a wnaed gan ei Rheolwyr Buddsoddi. | Mae'r Bartneriaeth yn derbyn adroddiad ar y gweithgarwch ymgysylltu bob chwarter.<br>Mae'r Bartneriaeth yn codi unrhyw faterion o bryder ar wahân gyda'r rheolwyr eraill, gan gynnwys cronfeydd goddefol, fel bo'r angen.<br>Mae'r Bartneriaeth yn disgwyl derbyn adroddiadau stiwardiaeth o leiaf yn flynyddol gan ei Rheolwyr Buddsoddi marchnadoedd preifat, a lansiwyd dros 2023/24.<br>**Dylai'r Bartneriaeth ymgysylltu â'i darparwyr marchnad preifat i siapio ffurf yr adrodd a ddarperir.** | 🟢 |
| **Benthyca stoc** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.8, 8.9 | Ni fydd y Bartneriaeth yn benthyca 100% o'r daliad mewn unrhyw stoc sengl, felly gall y Bartneriaeth fynegi ei barn a gwneud safbwynt polisi ar unrhyw destun a ystyrir yn deilwng ganddi drwy ei hawl i bleidleisio.<br>Bydd y Bartneriaeth yn parhau i fonitro effaith y safbwynt polisi hwn dros amser ac yn adolygu'r polisi os oes angen. | Esblygodd polisi'r Bartneriaeth ar fenthyca stoc dros 2023/24. Nid yw benthyca stoc yn ei le ar yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy.<br>Rhoddwyd gwasanaeth ad-alw stoc yn ei le ar ddiwedd 2023, sy'n golygu y bydd stoc yn cael ei ad-alw yn awtomatig ar yr holl Is-gronfeydd ecwiti, fel bod modd i'r Bartneriaeth bleidleisio a'i holl safleoedd mewn AGMs/EGMs. | |
| **Cydweithio** | | | |
| 9.1 | Ar y cyd â'i Darparwr PacY, bydd y Bartneriaeth yn asesu cyfleoedd cydweithio posib yn barhaus a bydd yn hysbysu ac yn gofyn am fewnbwn gan yr Awdurdodau Cyfansoddol ar unrhyw gyfle o'r fath y mae'n tybio sy'n berthnasol. | Yn gyffredinol, mae gwaith ar gyfleoedd cydweithio yn cael ei wneud drwy Robeco, Russell a LAPFF.<br>**Dylai'r Bartneriaeth ystyried sut y gall fwydo yn well i adnabod ac asesu cyfleoedd posib i gydweithio.** | |
| 9.3 | Ar y cyd â'i Darparwr PacY, bydd y Bartneriaeth yn ceisio adnabod mentrau a chydweithrediad buddsoddi cyfrifol, a arweinir gan fuddsoddwyr, y gall eu cefnogi'n frwd. | Mae'r Bartneriaeth wedi ystyried menter LAPFF i gyd-ffeilio datrysiad cyfranddaliwr â Rio Tinto. Tra nad oedd modd i'r Bartneriaeth gefnogi hyn, bu i hyn arwain y Bartneriaeth i ystyried prosesau lle y gellir cefnogi datrysiadau cyfranddalwyr y dyfodol yn uniongyrchol.<br>**Dylai'r Bartneriaeth gwblhau'n derfynol ddatblygiad y broses hon. Efallai y bydd y Bartneriaeth hefyd yn dymuno ystyried sut fydd cydweithio yn y dyfodol yn cael ei adnabod.** | |
| 9.4 | Bydd y Bartneriaeth yn annog rheolwyr buddsoddi gwaelodol i gymryd rhan mewn sesiynau ymgysylltu cydweithredol neu eu cefnogi pan ystyrir eu bod er budd ariannol cyffredinol gorau'r Awdurdodau Cyfansoddol. | Mae Russell yn cymryd rhan mewn nifer o gydweithrediadau yn y diwydiant sy'n bodloni buddion y Bartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Menter Rheolwyr Ased Sero Net, y Grŵp Buddsoddwyr Sefydliadol ar Newid Hinsawdd a Gweithredu Hinsawdd 100+, ynghyd â phartneriaeth cydweithio-ymgysylltu gyda Sustainalytics.<br>**Dylai ffocws y Bartneriaeth fod yn bennaf ar ei pherthnasau uniongyrchol, yn hytrach na'r Rheolwyr Buddsoddi tanategol.** | |
| 9.5 | Pan geir unrhyw gyfle addas, bydd y Bartneriaeth yn parhau i gydweithio gyda'r prosiect cydweithio buddsoddi cyfrifol traws-gronfa. | Mae'r Bartneriaeth yn cael ei chynrychioli ar y grŵp Buddsoddi Cyfrifol ar draws y gyd-gronfa ac mae diweddariadau yn cael eu darparu'n rheolaidd i'r RIWG ar y gweithgarwch parhaus. | |

| Monitro, Adrodd a Mesur | | | |
|---|---|---|---|
| 10.1 | Mewn ymgynghoriad â’r Awdurdodau Cyfansoddol, Ymgynghorwyr a Rheolwyr Buddsoddi, mae’r Bartneriaeth wedi datblygu metricsau monitro priodol ar gyfer portffolios presennol a bydd yn parhau i gytuno ar fetricsau priodol mewn perthynas â'r holl bortffolios newydd. Bydd y Bartneriaeth angen i'r Rheolwyr Buddsoddi gynnwys metricsau o'r fath wrth iddynt adrodd bob chwarter i Awdurdodau Cyfansoddol. | Mae'r Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol wedi sefydlu proses ar gyfer derbyn adroddiadau 'manwl' ar yr is-gronfeydd ESG a risg hinsawdd, sy'n cael eu darparu gan ei ymgynghorwr. Mae'r rhain yn caniatáu i’r Bartneriaeth weld sut mae pob Is-gronfa a rheolwr gwaelodol yn perfformio o ran yr hinsawdd ac ESG. **Dylai’r Bartneriaeth sicrhau bod ei hadrodd yn parhau i gwrdd arferion gorau, fel y nodir yn argymhellion AWCR.**<br>Mae monitro ychwanegol wedi cael ei ystyried yn briodol ar gyfer lansio'r Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Gynaliadwy. Mae’r Bartneriaeth yn derbyn adroddiadau chwarterol gan Russell bob chwarter, sy'n cynnwys metricsau risg hinsawdd ac ESG, ar gyfer yr holl Is-gronfeydd dan reolaeth Russell.<br>Cyflwynwyd trefn adrodd Buddsoddi Cyfrifol chwarterol (gan Is-gronfa) dros 2023, hygyrch i bwyllgorau pensiwn, ac mae'n cynnwys nifer o fetricsau monitro.<br>Mae'r SAW yn ymgorffori adrodd ychwanegol, gan gynnwys ar aliniad sero net, ymgysylltiad ar allyriadau wedi'u hariannu ac ar aliniad UN SDG.<br>Mae fframwaith marchnadoedd preifat yn cael ei ddatblygu i sicrhau metricsau priodol a monitro ar gyfer y rhaglenni buddsoddi hynny. **Dylai’r Bartneriaeth gwblhau'n derfynol ddatblygiad y fframwaith monitro hwn.**<br>**Dylai’r Bartneriaeth ystyried adrodd yn y dyfodol o amgylch aliniad trosglwyddiad hinsawdd a'r dadansoddiad senario.** | ● |
| 10.3 | Mae'n ofynnol gan y Bartneriaeth bod cymwysterau Buddsoddi Cyfrifol pob Rheolwr Buddsoddi a benodir yn destun adolygiad blynyddol. Ar y cyd â'r partïon perthnasol, bydd y Bartneriaeth yn datblygu fframwaith adrodd priodol ar gyfer ei Reolwyr Buddsoddi. | Mae Waystone/Russell, fel rhan o'u proses dethol rheolwyr, eisoes yn gwerthuso sut mae rheolwyr yn integreiddio ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol yn eu penderfyniadau.<br>Mae’r Bartneriaeth yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan ei rheolwyr buddsoddi ar berfformiad a materion Buddsoddi Cyfrifol. Mae hyn yn cael ei adrodd yn yr Adroddiad Cod Stiwardiaeth.<br>**Bydd y fframwaith marchnadoedd preifat sy'n cael ei ddatblygu yn helpu i hwyluso** | ● |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **adrodd ar hyn a dylid bwrw ymlaen ag ef dros 2024/25.** | |
| 10.4 | Yn flynyddol, bydd y Bartneriaeth yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad stiwardiaeth yn manylu ar y camau a gymerwyd i gyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gyflawnir, gan ddilyn egwyddorion Cod Stiwardiaeth 2023 FRC UK. | Cwblhaodd y Bartneriaeth adroddiad stiwardiaeth ar gyfer y flwyddyn at 31 Mawrth 2022, a chafodd hwn ei gyflwyno i'r FRC ym mis Hydref 2023 a'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2024.<br>Mae’r Bartneriaeth wedi cadw ei statws llofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU. | |
| **Arall** | | | |
| 11.1 | Bydd y Bartneriaeth hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ymgorffori Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn ei chredoau buddsoddi cyfrifol a'i mecanweithiau monitro a mesur. | Yn ystod 2023/24, derbyniodd y Bartneriaeth yr hyfforddiant buddsoddi cyfrifol a ganlyn:<br>• Stiwardiaeth Buddsoddi Cyfrifol<br>• Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy<br>• Beth mae Buddsoddi Cyfrifol yn ei olygu i’r Bartneriaeth<br>• Benthyca stoc<br>Mae’r Bartneriaeth wedi cynhyrchu cynllun hyfforddi 23/24 sy'n cynnwys y pynciau Buddsoddi Cyfrifol a ganlyn:<br>• Ffyniant bro/cyfleoedd datblygu<br>• Adrodd TCFD<br>• Pleidleisio ac Ymgysylltu<br>• Buddsoddi Cyfrifol yn Is-gronfeydd PPC<br>• Cynnydd cyfleoedd cyd-gronfeydd a chydweithio rhwng CPLlL eraill | |
| 11.2 | Bydd y Bartneriaeth hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ymgorffori Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn ei chredoau buddsoddi cyfrifol a'i mecanweithiau monitro a mesur. | Fel rhan o werthuso a datblygu ei Themâu Stiwardiaeth, mae’r Bartneriaeth wedi datblygu fframwaith i fynd ati'n glir i fapio ystyriaeth themâu newydd a phresennol i SDG y Cenhedloedd Unedig.<br>Wrth ddatblygu'r Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, mae gofyn penodol wedi cael ei roi yn ei le i gyflawni'r deilliannau adrodd sy'n alinio â SDG y Cenhedloedd Unedig.<br>Gan y pennir bod y gofyn hwn bellach wedi'i ymgorffori, mae hwn wedi cael ei dynnu gan ddilyn yr Adolygiadau Polisi. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.4 | Bydd y Bartneriaeth yn adolygu cydymffurfiaeth pob parti â'r polisi hwn yn flynyddol. Bydd y Bartneriaeth yn cyhoeddi canlyniadau ei hasesiad mewn adroddiad cyhoeddus. | Mae adroddiad stiwardiaeth blynyddol y Bartneriaeth yn gweithredu fel adroddiad stiwardiaeth a llywodraethu Buddsoddi Cyfrifol PPC.<br>Hefyd edrychodd AWCR ar hyn o safbwynt hinsawdd yn benodol a nawr bydd hwn yn adroddiad rheolaidd ar lefel y gyd-gronfa wrth symud ymlaen.<br>Mae'r adolygiad hwn hefyd yn cwrdd â gofynion yr ymrwymiad hwn. | ● |

# Atodiad 2: Cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau polisi hinsawdd

| Cyfeirnod | Ymrwymiad / Datganiad Polisi | Diweddariad / Sylw | Statws RAG |
|---|---|---|---|
| **Amcanion** | | | |
| 13 | Rôl y Bartneriaeth yw ymgynghori â phob Awdurdod Cyfansoddol mewn perthynas â'u hamcanion hinsawdd, o leiaf bob blwyddyn, a deall yn llwyr pa ddatrysiadau gweithredu y maent eu hangen i gwrdd â'u hamcanion a'u hymrwymiadau. | Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch eu dyheadau hinsawdd. Roedd yr AWCR yn ddefnyddiol o ran helpu pob Awdurdod Cyfansoddol i ddeall amlygiad hinsawdd, ac mae wedi helpu i hwyluso trafodaethau ar gynigion incwm sefydlog a mandadau goddefol esblygol y Bartneriaeth. Mae'r trafodaethau eraill wedi cynnwys coedwigaeth gynaliadwy a thir coed, a sut i ystyried buddsoddiadau lleol posib (Cymru gyfan neu benodol i Awdurdod Cyfansoddol). | |
| 14 | Yn dilyn ymgynghori gyda phob Awdurdod Cyfansoddol bydd y Bartneriaeth yn ceisio datblygu a hwyluso datrysiadau buddsoddi sy'n galluogi pob Awdurdod Cyfansoddol i gyflawni eu hamcanion ac ymrwymiadau hinsawdd. | Dros 2023, roedd nifer o lansiadau a buddsoddiadau newydd:<br>• Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy (SAE)<br>• Isadeiledd<br>• Dyledion Preifat<br>• Ecwiti Preifat<br>Mae trafodaethau wedi cychwyn ar sawl maes fydd yn cael eu bwrw ymlaen dros 2024/25:<br>• Incwm sefydlog cynaliadwy<br>• Esblygiad y mandadau goddefol<br>• Eiddo tirol<br>• Buddsoddiad effaith (ffyniant bro)<br>Mae ystyriaethau hinsawdd wedi cael eu hymgorffori i ddatblygiad y mandadau hyn a byddant i'w gweld yn yr ystyriaethau parhaus o fandadau yn y dyfodol. | |
| 15 | Lle bo modd, bydd y Bartneriaeth a'i Hawdurdodau Cyfansoddol yn ceisio cydweithredu a chydweithio i ddatblygu datrysiadau buddsoddi sy'n cwrdd â'r amcanion hinsawdd ac ymrwymiadau'r holl Awdurdodau Cyfansoddol. | | |
| 16 | Os na ellir datblygu datrysiadau unedig sydd ar yr un pryd yn cwrdd ag amcanion a gofynion yr holl Awdurdodau Cyfansoddol, bydd y Bartneriaeth yn gweithio gydag unrhyw Awdurdod Cyfansoddol i ddatblygu datrysiadau buddsoddi wedi'u teilwra i'w galluogi i gyflawni eu hamcanion a'u gofynion lleol eu hunain. | | |
| 18, 19 | Caiff Nod Hinsawdd y Bartneriaeth ei hadolygu'n rheolaidd, yn dilyn ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol, a bydd bob amser yn cael ei gyrru gan ofynion ac amcanion torfol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Os yw ymarfer ymgynghorol y Bartneriaeth gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol yn methu adnabod amcan | Nid yw'r Bartneriaeth wedi cytuno ar nod hinsawdd torfol eto. Gan ddilyn yr AWCR, cytunwyd y byddai fframwaith hinsawdd yn cael ei adeiladu a fyddai'n cefnogi datblygiad nod hinsawdd gyffredin a chysondeb diffiniadau ar draws yr Awdurdodau Cyfansoddol. | |

Mae Hymans Robertson LLP yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda rhif cofrestru OC310282.
Mae rhestr o aelodau Hymans Robertson LLP ar gael i'w archwilio yn One London Wall, London EC2Y 5EA, swyddfa gofrestredig y cwmni.
Wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan y Financial Conduct Authority ac wedi'i drwyddedu gan yr Institute and Faculty of Actuaries ar gyfer amrediad o weithgareddau busnes buddsoddi. Mae Hymans Robertson yn nod masnach cofrestredig o Hymans Robertson LLP.
**Aelod o Abelica Global**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn barod i'w cefnogi yn unfrydol, yna ni fydd Nod Hinsawdd i'r Bartneriaeth yn cael ei llunio tan fo cefnogaeth unfrydol i Nod Hinsawdd benodol. | | |
| **Strategaeth** | | | |
| 21 | O gydnabod ei threfniadau buddsoddi a'r cynigion presennol, bydd y Bartneriaeth yn canolbwyntio yn syth ar fod yn agored i risg yn ymwneud â'r hinsawdd yn ei daliadau ecwiti ac incwm sefydlog. Er hynny, bydd y Bartneriaeth yn ystyried risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd mewn dosbarthiadau ased eraill pan fo amgylchiadau yn caniatáu neu angen iddi wneud hynny. Bydd y Bartneriaeth yn ceisio darparu datrysiadau risg hinsawdd ar draws ei holl Is-gronfeydd gan gynnwys asedau'r farchnad breifat. | Mae'r amlygiad i risg hinsawdd yn cael ei fonitro a'i ystyried ar draws holl Is-gronfeydd PPC gyda Russell yn tracio'r risg hinsawdd ar draws yr Is-gronfeydd y mae'n eu rheoli ar gyfer PPC. Mae aliniad sero net yn cael ei dracio yn benodol yn y SAE.<br>Wrth fwrw ymlaen i benodi ei Dyrannwyr Marchnadoedd Preifat, cafodd ystyriaethau cynaliadwyedd hefyd eu hintegreiddio, gan gynnwys disgwyliad i ddarparwyr hwyluso buddsoddiad mewn datrysiadau hinsawdd, gan gynnwys isadeiledd ynni adnewyddadwy.<br>Mae rheolwyr marchnadoedd preifat yn adrodd ar amlygiad hinsawdd. Bydd y fframwaith marchnadoedd preifat yn hwyluso'r monitro a'r adrodd ymhellach. | |
| 22 | Mae'r Bartneriaeth yn derbyn Adroddiadau Monitro Risg Hinsawdd chwarterol ar gyfer yr Is-gronfeydd Ecwiti a'r Is-gronfeydd Incwm Sefydlog. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i chwilio ac ymchwilio i ddatblygiadau'r farchnad fydd yn gwella ei gallu i asesu bod yn agored i risg hinsawdd yn ei His-Gronfeydd. | Bellach, mae ymgynghorydd PPC yn darparu Adroddiadau Monitro ESG a Risg Hinsawdd ar gyfer holl Is-gronfeydd PPC ar sail flynyddol fan leiaf. Mae PPC yn adrodd ar yr amlygiad hinsawdd ar gyfer pob un o'r Is-gronfeydd sy'n cael eu rhestru (ac eithrio'r Gronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang) ar sail chwarterol.<br><br>Mae Russell yn tracio'r amlygiad i risg carbon o bob Is-gronfa yn yr adroddiadau chwarterol y mae'n eu darparu i PPC. Mae'r Rheolwyr Buddsoddi tanategol ar gyfer y Gronfa Twf Byd-eang hefyd yn adrodd ar y risg hinsawdd.<br><br>Mae adrodd ar hinsawdd hefyd yn cael ei ddarparu gan y rheolwyr marchnadoedd preifat.<br><br>Adroddwyd amlygiad hinsawdd ar lefel Cymru gyfan drwy'r AWCR. Bydd yr | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymarferiad hwn yn cael ei wneud bob tair blynedd, gydag adroddiad ar lefel cyd-gronfa (yn unol â gofynion adrodd posib TCFD ar gyfer y CPLIL), ar gael yn y blynyddoedd interim. Bydd yr adroddiad cyntaf y Bartneriaeth yn ymdrin â 2023/24. | |
| 23 | Bydd y Bartneriaeth yn parhau i hwyluso dadansoddiad senario hinsawdd ar draws asedau gaiff eu dal gan y Bartneriaeth i sicrhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol o'r risgiau hinsawdd posib yn Is-gronfeydd PPC. | Ystyriodd yr AWCR aliniad trosglwyddo ar draws yr holl asedau a ddelir yng Nghymru. Mae Rheolwyr Buddsoddi Russell yn cynnal dadansoddiad senario hinsawdd ar draws yr Is-gronfeydd y mae'n eu rheoli ar gyfer y Bartneriaeth. Mae'r SAE yn adrodd yn benodol ar aliniad sero net y portffolio.<br>**Dylai'r Bartneriaeth ystyried adrodd yn y dyfodol o amgylch aliniad trosglwyddiad hinsawdd a'r dadansoddiad senario.** | 🟡 |
| 24 | Mae'r Bartneriaeth wedi ymrwymo i gynnal o leiaf un sesiwn hyfforddi flynyddol yn ymwneud â'r risg ar gyfer ei rhan-ddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal ymarfer adnabod anghenion hyfforddi blynyddol, ar y cyd â'r Awdurdodau Cyfansoddol, mae hwn yn fecanwaith y defnyddia'r Bartneriaeth i fesur gofynion hyfforddiant risg hinsawdd ei rhan-ddeiliaid. | Cynhaliwyd sawl sesiwn hyfforddi ar Fuddsoddi Cyfrifol yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar TCFD ar gyfer yr LGPS.<br>Cynhaliwyd asesiad anghenion hyfforddi ar gyfer blwyddyn 2024/25, gyda hyfforddiant ar y Polisi Risg Hinsawdd i'w gynnal yn Ch3 24, ynghyd â sesiwn ar gynllunio siwrne sero net a metricsau hinsawdd, i ddigwydd yn yr adrodd TCFD sydd i ddigwydd yn Ch4 24. | 🟢 |
| **Gweithredu** | | | |
| 27 | Bydd y Bartneriaeth yn gweithio â'i Rheolwyr Buddsoddi i sicrhau eu bod yn rhoi cyfrif am ac yn integreiddio risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn eu prosesau buddsoddi. Bydd y Bartneriaeth, o leiaf yn flynyddol, yn adolygu bob un o ddulliau ei Rheolwyr Buddsoddi tuag at integreiddio Risg Hinsawdd. | Mae PPC wedi ymgysylltu â Russell yn ystod y flwyddyn i ddeall ei ddull o reoli'r risg hinsawdd, gan gynnwys y metricsau a'r teclynnau y mae'n eu defnyddio i wneud hynny.<br>Mae Russell wedi dyrannu cyfrifoldeb dros y trosolwg o reolwyr buddsoddi tanategol a ddefnyddir a'u dull tuag at reoli risg hinsawdd. | 🟢 |
| 29 | Bydd y Bartneriaeth yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ar risgiau sy'n ymwneud â hinsawdd drwy ei Darparwr PacY. Yn benodol, bydd y Bartneriaeth yn annog ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi am faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd, yn cynnwys cynnydd yn y datgeliad ar risgiau sy'n ymwneud â'r | Mae thema stiwardiaeth PPC, 'Canolbwyntio ar Sero Net' wedi'i integreiddio ar draws nifer o themâu ymgysylltu Robeco a weithredwyd dros y flwyddyn (gan gynnwys ar Allyriadau Sero Net; *Acceleration to Paris*; a *Just Transition*). | 🟢 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hinsawdd gan gwmnïau i fuddsoddwyr ac ar ffurfio cynlluniau trawsnewid sy'n alinio â nodau Cytundeb Paris. | | |
| **Monitro / Adrodd** | | | |
| 30 | Mae'r Bartneriaeth yn monitro amlygiad sy'n ymwneud â'r hinsawdd o fewn ei his-gronfeydd yn chwarterol. Mae'r metricsau gaiff eu monitro yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, bod yn agored i gynhyrchwyr tanwydd ffosil, gollyngiadau carbon a dwysedd cyffredinol carbon. Bydd y Bartneriaeth yn monitro newidiadau yn arferion y farchnad i sicrhau bod PPC yn gwbl ymwybodol o arferion gorau sy'n newid. | Mae'r Adroddiadau ESG a Monitro Risg Hinsawdd yn cynnwys amrediad eang o fetricsau hinsawdd, ar draws yr Is-gronfeydd ecwiti ac incwm sefydlog. Mae'r adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol chwarterol hefyd yn monitro amlygiad hinsawdd ar draws Is-gronfeydd. Mae'r AWCR a gynhyrchwyd dros y flwyddyn hefyd wedi ymdrin â nifer o fetricsau sy'n ymwneud â'r hinsawdd. | |
| 31 | Bydd y Bartneriaeth angen i'r Rheolwyr Buddsoddi i ddarparu monitro ar fod yn agored i risg sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn eu hadroddiadau chwarterol i'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol. | Mae Russell yn darparu adroddiad ar y risg hinsawdd yn ei adroddiadau chwarterol i PPC. Mae'r adroddiadau ESG a Risg Hinsawdd a ddarperir gan ymgynghorydd PPC hefyd yn monitro'r risg hinsawdd ar draws yr Is-gronfeydd. Mae'r Rheolwyr Buddsoddi tanategol ar gyfer y Gronfa Twf Byd-eang hefyd yn darparu adroddiadau monitro o'r fath ar sail chwarterol ar gyfer eu mandadau. | |
| 33 | Bydd y Bartneriaeth yn adrodd yn unol â gofynion y TCFD, gan gynnwys adroddiad ar y camau a gymerwyd i gyflawni'r polisi hwn, a bydd yn cefnogi'r Awdurdodau Cyfansoddol gyda'u hadrodd TCFD eu hunain. | Ar hyn o bryd, nid oes gofyn i PPC adrodd yn unol â TCFD, er bod disgwyl i hyn ddechrau yn 2025. Yr AWCT oedd yr adroddiad math-TCFD cyntaf ar gyfer yr holl asedau a ddelir yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei ailadrodd bob tair blynedd, gydag adroddiad TCFD lefel cyd-gronfa yn cael ei gynhyrchu ar gyfer 2023/24 erbyn diwedd y flwyddyn. | |
| **Tryloywder** | | | |
| 34 | Bydd y Bartneriaeth yn annog, drwy ei darparwr PacY a'r Rheolwyr Buddsoddi, yr holl gwmnïau buddsoddi i ddatgelu yn unol â gofynion y TCFD. | Bydd y gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei wneud drwy Robeco a Russell. Mae PPC wedi tynnu sylw Robeco at y gofyniad hwn drwy ei themâu stiwardiaeth.<br>Mae Robeco yn ymgorffori disgwyliadau o amgylch datgeliadau TCFD gyda nifer o'u themâu ymgysylltu sy'n ymwneud â'r hinsawdd, gan gynnwys y thema Allyriadau Carbon Sero Net. Y thema hon yw *'evergreen'*, gyda chwmnïau newydd yn cael eu hymgysylltu ar sail dreigl. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Hefyd, mae Robeco wedi ychwanegu'r thema *'Just Transition'*, gyda ffocws penodol ar farchnadoedd datblygol, yn rhan o'r amcan o fod yn gosod targedau sero net a datgeliadau.<br>Mae disgwyliadau adrodd wedi'u hymgorffori i'r polisi pleidleisio. Cafodd y polisi pleidleisio hefyd ei gryfhau, i sicrhau bod gan y cwmnïau hynny sydd fwyaf agored i risgiau hinsawdd gynlluniau trosglwyddo mwy cadarn yn eu lle, ac y dylid bod datgeliadau ar strategaeth datgarboneiddio sy'n alinio â nodau Cytundeb Paris. | |